



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Datganiad Polisi Tâl 2020-21



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2020.

Trwyddedir y wybodaeth hon dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.



Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, chc.cymru@cbhc.gov.uk.

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Fframwaith deddfwriaethol	3
3. Tâl ac amodau.....	4
4. Cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch.....	5
5. Cyflogeion sy'n derbyn y cyflogau isaf.....	6
6. Perthynoleddau tâl	7
7. Rheoli talent	7
8. Recriwtio.....	8
Atodiad A – Bandiau Cyflog o 1 Ebrill 2020	9
Atodiad B – Cyfansoddiad y staff yn ôl gradd	11
Atodiad C – Perthynoleddau tâl o fewn y Comisiwn.....	11
Atodiad D – Cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd.....	12
Atodiad E – Cyfansoddiad y Bwrdd yn ôl rhywedd	12

1. Cyflwyniad

- 1.1. Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Comisiwn Brenhinol. Gofynnwyd i bob corff o'r fath gyhoeddi datganiad polisi tâl yn unol â'r argymhellion a wnaed ym mis Tachwedd 2015 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Dryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig. Felly, pwrpas y Datganiad Polisi Tâl hwn yw cyplysu ein polisi ag amrywiol faterion sy'n ymwneud â thâl a chydabyddiaeth ariannol y gweithlu, gan gynnwys tâl a chydabyddiaeth ariannol swyddi uwch mewn perthynas â'r cyflogaeth sy'n derbyn y cyflogau isaf.

2. Fframwaith deddfwriaethol

- 2.1. Wrth bennu tâl a chyflog pob aelod o'i staff, bydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn) yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth berthnasol cyflogaeth.
- 2.2. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau 2000 Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol), Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010, a lle bo'n berthnasol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Enillion).
- 2.3. O ran gofynion y Cyflog Cyfartal sy'n gynnwysedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Comisiwn yn gwneud yn siŵr nad oes gwahaniaeth mewn cyflogau o fewn ei strwythur tâl a bod modd cyfiawnhau pob amrywiad cyflog yn wrthrychol trwy ddefnyddio mecanwaith gwerthuso swyddi (JEGS) sy'n ystyriol o gydraddoldeb ac sy'n cysylltu cyflogau'n uniongyrchol â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl. JEGS yw Cynllun Cymorth Gwerthuso a Graddio Swyddi'r Gwasanaeth Sifil. Methodoleg gwerthuso swyddi ddadansoddol gyfrifiadurol ydyw sy'n cynnig ffordd systematig a chyson o werthuso rolau.
- 2.4. Gweler [Atodiad D](#) am drosolwg o gyfansoddiad rhywedd y gweithlu a staff uwch cyfan; gweler [Atodiad E](#) am drosolwg o gyfansoddiad rhywedd y Bwrdd.

3. Tâl ac amodau

- 3.1. Mae cyflogau, graddfeydd a thelerau ac amodau gwasanaeth staff y Comisiwn Brenhinol yr un fath â'r rheiny ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- 3.2. Bydd y Comisiwn yn adolygu ei gyllideb gyflogau bob blwyddyn, gan geisio'r gyfatebiaeth orau bosibl rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r gofynion a geir yn ein Gwarant Frenhinol, Llythyr Cylch Gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru, a'n Cynllun Gweithredol.
- 3.3. Yn sgil trafodaethau cyflog yn 2020 gyda'r Undebau Llafur sy'n cynrychioli staff a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, cytunwyd ar setliad cyflog un flwyddyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021. Dyfarnodd hyn gynnydd o 2.5% i bob pwynt cyflog a gradd i bob aelod staff. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru (a'r Comisiwn Brenhinol) i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw ac yn mynd â ni y tu hwnt i'r egwyddor '£10 yr awr' y cytunwyd arni ynghynt. Er mwyn cynnal cadernid y gyfundrefn gyflog, cadwyd bwlch o 5% rhwng bandiau cyflog. Nid yw'r dyfarniad yn berthnasol i staff ar delerau ac amodau wedi'u diogelu.
- 3.4. Gellir dod o hyd i'r graddfeydd cyflog cyfredol (Ebrill 2020 – Mawrth 2021) yn [Atodiad A](#).
- 3.5. Pan fydd swydd wedi'i gwerthuso trwy JEGS, bydd y sgôr yn pennu'r band cyflog ar gyfer y swydd. Gwneir penodiadau newydd fel rheol ar bwynt isaf y radd berthnasol, er y gellir amrywio hyn o dan amgylchiadau eithriadol i sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi.
- 3.6. Bydd cynyddrannau o fewn y band cyflog yn cael eu talu ar naill ai 1 Ionawr neu 1 Gorffennaf bob blwyddyn (hyd nes y bydd uchafswm y band wedi'i gyrraedd) yn dibynnu ar y dyddiad cychwyn.
- 3.7. Ni fydd y Comisiwn yn talu bonysau nac yn gwneud taliadau eraill yn ymwneud â pherfformiad i'w staff.

- 3.8. Mae unrhyw daliadau a wneir mewn cysylltiad â therfynu cyflogaeth – oherwydd ymddiswyddiad, colli gwaith neu ymddeoliad – yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru.
- 3.9. Gweler [Atodiad B](#) am drosolwg o niferoedd staff yn ôl band cyflog.

4. Cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch

4.1. At ddiben y datganiad hwn, mae swyddi uwch yn golygu aelodau Tîm Gweithredol y Comisiwn (TG). (Manylir ar aelodaeth y tîm yn 4.2 isod.) Bydd y TG yn cyfarfod unwaith y mis i adolygu a gwneud penderfyniadau gweithredol am:

- llywodraethu, cyllid, caffael, cyfleusterau, Adnoddau Dynol a hyfforddiant, recriwtio, cynllunio ar gyfer olyniaeth, morâl y staff, Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), codi arian, prosiectau cyfredol a phrosiectau i'r dyfodol;
- cydymffurfiad y Comisiwn ag Iechyd a Diogelwch, cyfraith cyflogaeth, Safonau'r Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Diogelwch Seiber;
- risgiau gweithredol a strategol;
- perfformiad yn erbyn y llythyr cylch gwaith a Dangosyddion Perfformiad Allweddol;
- blaengynllunio ar gyfer rhaglen waith ac adnoddau craidd y Comisiwn.

4.2. Aelodau'r Tîm Gweithredol yw Ysgrifennydd y Comisiwn a'r ddau Bennaeth Gwasanaeth (Gwybodaeth a Dealltwriaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus). Mae eu cyflogau sylfaenol ar 1 Ebrill 2020 fel a ganlyn:

a. Yr Ysgrifennydd

Cafodd swydd yr Ysgrifennydd ei hailraddio yn 2015; penodwyd yr Ysgrifennydd presennol ar G6 (EB1 gynt), ym mhen uchaf graddfa gyflog Band Gweithredol Llywodraeth Cymru, ond yn is na lefel Uwch Wasanaeth Sifil y graddio blaenorol.

Mae'r band cyflog presennol ar gyfer y swydd yn dechrau ar £63,880 y flwyddyn ac yn codi i £74,730 y flwyddyn mewn tri cham cynyddrannol. Mae'r deiliad swydd presennol wedi cyrraedd uchafswm y band cyflog.

b. Penaethiaid Gwasanaeth

Mae'r band cyflog presennol ar gyfer y swyddi hyn yn dechrau ar £39,310 y flwyddyn ac yn codi i £47,000 mewn tri cham cynyddrannol. Mae deiliaid presennol y swyddi wedi cyrraedd uchafswm y band cyflog.

- 4.3. Mae gan y Comisiwn naw Comisiynydd ar hyn o bryd. Ni chânt eu talu ond derbyniant lwfans dyddiol am fynychu cyfarfodydd y Comisiwn a pharatoi ar eu cyfer. Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn darparu arweiniad a dull llywodraethu i'r sefydliad, ac yn craffu ar bob un o weithgareddau'r Comisiwn Brenhinol, yn ogystal â herio'r gweithgareddau hynny'n adeiladol.

5. Cyflogeion sy'n derbyn y cyflogau isaf

- 5.1. Mae cyflogeion y Comisiwn sy'n derbyn y cyflogau isaf wedi'u cyflogi ar fand Cymorth Tîm Llywodraeth Cymru. Y cyflog isaf ar y band cyflog yw £20,500 y flwyddyn ac mae hyn yn codi mewn dau gam cynyddrannol i uchafswm o £23,830. Mae staff ar y band Cymorth Tîm yn derbyn cyflog cyfwerth ag amser llawn (37 awr) sydd ymhell uwchben Cyflog Byw y DU (sef £9 yr awr ar hyn o bryd) a bennwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig.
- 5.2. Bydd y Comisiwn yn cefnogi staff ar gyflogau is drwy:
- darparu Cynllun Cynorthwyo Cyflogeion; a
 - chyfrannu at Elusen y Gweision Sifil (Cronfa Les y Gwasanaeth Sifil gynt).

6. Perthynoleddau tâl

- 6.1. Mae'r berthynas rhwng cyfradd tâl y rhai sy'n cael eu talu lleiaf a'r swyddi uwch yn cael ei phenderfynu yn ôl y prosesau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pennu strwythurau tâl a graddio fel yr esboniwyd yn gynharach yn y datganiad polisi hwn.
- 6.2. Y tâl lleiaf yn y Comisiwn yw'r gyfradd gychwynnol yn amrediad cyflog Tîm Cymorth Llywodraeth Cymru. Mae'r aelod staff sy'n derbyn y tâl mwyaf ar radd G6 (Band 6) Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw swyddi yn strwythur y Comisiwn sydd yn G7 (Band F). Felly, mae'r cymariaethau perthynoledd tâl a roddir (gweler [Atodiad C](#)) yn ymwneud â'r Gweithredwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (yr Ysgrifennydd) a'r Rheolwyr sy'n derbyn y cyflogau uchaf (y Penaethiaid Gwasanaeth).

7. Rheoli talent

- 7.1. Bydd y Comisiwn yn rheoli ei gronfa o dalent drwy gyfrwng proses ffurfiol o Reoli Perfformiad, sy'n cydnabod perfformiad da, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen hyfforddi a datblygu amrywiol sy'n briodol i'r swydd.
- 7.2. Corff bach yw'r Comisiwn ac mae'r mwyafrif o'i staff yn gweithio mewn rolau arbenigol 'unig berson'. Bydd yn annog ei staff i feithrin, cynnal a gwella'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu swyddi yn ogystal â rhoi cyfleoedd iddynt ymestyn a datblygu'r rolau a lenwant. Bydd y Comisiwn yn gwneud hyn drwy ddarparu hyfforddiant perthnasol a heriol a hefyd drwy:
 - rhoi rhyddid i staff weithio'n annibynnol pryd bynnag y bo modd;
 - rhoi cyfle i staff weithio ar amrywiaeth o brosiectau amlddisgyblaethol, wedi'u hariannu'n fewnol ac allanol, ochr yn ochr â staff arbenigol eraill sy'n gweithio i'r Comisiwn ac i bartneriaid allanol;
 - annog staff i gynrychioli'r Comisiwn mewn pwyllgorau a grwpiau sector-eang a Chymru-gyfan;

- annog staff i gyhoeddi eu gwaith, rhoi darlithiau ac ysgrifennu erthyglau, a chymryd rhan mewn cyfweiliadau ac mewn rhaglenni dogfen ar y teledu a'r radio ac ati, er mwyn rhannu gwybodaeth â chydweithwyr a'r cyhoedd;
- annog staff i fynychu a chyfrannu at weithdai a chyfarfodydd yn y DU a thramor sy'n berthnasol i'w maes gwaith neu eu harbenigedd hwy.

Mae'r Comisiwn yn credu bod yr ymagwedd hon yn sicrhau llwyddiant y sefydliad a'i le fel arweinydd ac arloeswr yn y sector.

8. Recriwtio

- 8.1. Mae polisi a gweithdrefnau'r Comisiwn wrth recriwtio staff (gan gynnwys swyddi uwch) yn dilyn Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr gael eu penodi ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.
- 8.2. Anogir staff i ymgeisio am swyddi ar radd uwch pryd bynnag y bydd cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad yn codi.
- 8.3. Bydd pob aelod staff newydd, gan gynnwys staff uwch, yn cael ei dalu yn unol â bandiau cyflog Llywodraeth Cymru a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol Llywodraeth Cymru sydd mewn grym adeg recriwtio.
- 8.4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i egwyddorion partneriaeth strategol Cymru Hanesyddol, sef gweithio tuag at gysoni cyflogau ac amodau ar draws y sector amgylchedd hanesyddol ar lefel y rhai gorau.
- 8.5. Mae'r Comisiwn hefyd wedi ymrwymo i'r egwyddor o feithrin 'un gweithlu' i'r sector a bydd yn annog staff i ymgeisio am rolau o fewn y cyrff eraill yn y sector treftadaeth a ariennir gan y Llywodraeth, yn ogystal ag am secondiadau o'r Comisiwn neu i'r Comisiwn pan ystyrir mai hyn sydd orau.

Atodiad A – Bandiau Cyflog o 1 Ebrill 2020

1. Cymorth Tîm

Cymorth Tîm

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£20,000	£20,500	£500	2.5%
2	£21,620	£22,160	£540	2.5%
3	£23,250	£23,830	£580	2.5%

1. Swyddog Gweithredol, Swyddog Gweithredol Uwch, Uwch-swyddog Gweithredol, Graddau 6 a 7

SG (Band C)

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£24,415	£25,030	£615	2.5%
2	£25,650	£26,290	£640	2.5%
3	£28,150	£28,850	£700	2.5%

SGU (Band D)

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£29,850	£30,600	£750	2.5%
2	£31,750	£32,540	£790	2.5%
3	£33,650	£34,490	£840	2.5%
4	£36,500	£37,410	£910	2.5%

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Datganiad Polisi Tâl 2020-21

USG (Band E)

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£38,355	£39,310	£955	2.5%
2	£40,545	£41,560	£1,015	2.5%
3	£42,690	£43,760	£1,070	2.5%
4	£45,850	£47,000	£1,150	2.5%

G7 (Band F)

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£49,625	£50,870	£1,245	2.5%
2	£52,430	£53,740	£1,310	2.5%
3	£55,235	£56,620	£1,385	2.5%
4	£59,350	£60,830	£1,480	2.5%

G6 (Band G)

Pwynt Graddfa Presennol	2019	O 1 Ebrill 2020	Cynnydd	Cynnydd %
1	£62,320	£63,880	£1,560	2.5%
2	£64,620	£66,240	£1,620	2.5%
3	£67,985	£69,690	£1,705	2.5%
4	£72,905	£74,730	£1,825	2.5%

Atodiad B – Cyfansoddiad y staff yn ôl gradd

Band Cyflog	Nifer	%	CAALI	%
CT	7	20	6	19
SG	11	31	10	31
SGU	14	40	13	41
USG*	2	6	2	6
G7	0	0	0	0
G6*	1	3	1	3
Cyfanswm	35	100%	32	100%

* Swyddi uwch (Tîm Gweithredol)

Atodiad C – Perthynoeddau tâl o fewn y Comisiwn

Lluosrif cyflog		Cymhareb
Cymhareb isel i uchel	Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y cyflogai isaf ei gyflog a'r cyflogai uchaf ei gyflog fel cymhareb.	1 i 3.65
Cymhareb isel i Bennaeth Gwasanaeth	Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y cyflogai isaf ei gyflog a'r gyfradd tâl Rheoli uchaf fel cymhareb.	1 i 2.29
Cymhareb ganolrifol i uchel	Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol y Comisiwn a'r uchaf ei gyflog fel cymhareb.	1 i 2
Cymhareb ganolrifol i Bennaeth Gwasanaeth	Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol y Comisiwn a'r gyfradd tâl Rheoli uchaf fel cymhareb.	1 i 1.26

Sylwer: Cyfrifwyd y gymhareb ganolrifol drwy dynnu G7 allan (gan nad oes unrhyw swyddi ar y band hwn), felly mae cyfanswm o 19 cam; canolrif = £36,500 (SGU, pwynt graddfa 4).

Atodiad D – Cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd

Band Cyflog	Dynion				Menywod			
	Nifer	% o'r band	CAALI	% o'r band	Nifer	% o'r band	CAALI	% o'r band
CT	4	57	3.4	57	3	43	2.6	43
SG	6	55	6	58	5	45	4.3	42
SGU	6	43	5.5	43	8	57	7.2	57
USG*	2	100	2	100	0	0	0	0
G7	0	0	0	0	0	0	0	0
G6*	1	100	1	100	0	0	0	0
Cyfanswm	19		17.9		16		14.1	

* Swyddi uwch (Tîm Gweithredol)

Atodiad E – Cyfansoddiad y Bwrdd yn ôl rhywedd

Rhywedd	Nifer	%
Menywod	5	56
Dynion	4	44
Cyfanswm	9	100%